YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1894. [RHIF 81.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. EVAN WILLIAM LLOYD, CWMBACH, 1832–1894.

YN rhifyn Awst o'r cyfnodolyn newydd a elwir *Wales*, fe ddywed awdwr erthygl ddoniol ar "My First Days in Aberystwyth College," ei fod unwaith yn credu yn gryf mai Methodistiaeth oedd halen y ddaear, ac mai'r Methodistiaid oedd yr unig bobl oeddynt yn ddi-os a dibetai ar yr iawn lwybr yn arwain i'r nefoedd. Un o nodweddion arbenig Methodistiaeth Cymru yw ei chred annherfynol ynddi ei hunan, a dyna *secret* mawr ei llwyddiant. Mae *esprit de corps* yr enwad yn berffaith. Cred y Methodistiaid yn eu henwad, credant yn eu gilydd. Mae holl benwyniaid a phenfoelion a phlant yr enwad wedi eu trwytho â'r teimlad nad oes enwad fel eu henwad hwy, na saint na phregethwyr fel yr eiddynt hwy. Cofiaf am hogyn 14eg, a wyddai rywbeth hefyd, yn awgrymu nad oedd Shakespeare yn ffit i ddal canwyll yn ymyl Dyfed. Mae rhai uwch 14eg yn yr enwad heddyw yn credu yr un peth, er, yn wahanol i'r bachgen, heb ddarllen Shakespeare erioed.

Nid wyf heb edmygu'r yspryd hwn i raddau. Heb feio mwy nâ mwy ar yspryd annybyniaeth unigolion ein henwad, yr wyf yn credu mai yn y cyfeiriad hwn y mae ein gwendid mwyaf—gormod o actio'r ddiareb, "Yn mhob pen mae 'piniwn"—gormod o barch i'r V—gormod o duedd i ymranu a dadansoddi. Ceryddid rhai felly gynt am fyned un ar ol Paul, un ar ol Apolos, ac un ar ol Cephas. Nid yw rhaff o dywod felly o fawr gwerth. Mewn undeb a chydweithrediad ceir nerth a llwyddiant.

Bu Mr. Lloyd yn lwcus yn ei gynnulleidfa. Yr oedd ynddi amryw benau teuluoedd yn credu mai da yw myned i dy yr Arglwydd, a thrwy beidio esgeuluso eu cydgynnulliad eu hunain, yn rhoddi esiampl dda i

ereill. Credent yn eu gweinidog. Carent yn achlysurol glywed llais pregethwr dyeithr, ond nid oedd neb yn fwy derbyniol ganddynt nâ'u gweinidog eu hunain. Parchent ef, parchai yntau hwythau. Synai rhai fel yr oedd yn cael ei ffordd ei hunan gymmaint ganddynt, ond yr oedd hyny am eu bod yn deall mai lles yr achos yn wastad oedd ganddo mewn golwg, ac am ei fod bob amser yn gofalu gosod ei ffordd ei hun gerbron mewn gwedd fyddai yn cydgordio â'u hewyllys a'u calon hwynt. Dysgent eu plant i barchu'r gweinidog ac i barchu'r capel a'i holl gyssylltiadau. Nid sêl tafod geid yma, ond hefyd sêl gwaith, a ffyddlondeb rhieni yn cael ei ganlyn gan ffyddlondeb plant. Yr ydym yn caru gweled ymwelwyr achlysurol, ond ni wneir colofnau eglwys o rai felly.

Ganwyd Mr. Lloyd o deulu parchus a chyfrifol yn y Notais, yn Rhagfyr, 1832. Mab oedd i'r Parch. Titus Lloyd, am yr hwn y cawsom fer hanes yn rhifyn Gorphenaf. Fe'i dygwyd i fyny mewn awyrgylch grefyddol. Treuliodd rai blynyddau yn dylyn galwedigaeth gof, ac ni chafodd ei lwybr yn glir i wynebu y weinidogaeth nes oedd heibio ugain oed. Fe'i parotowyd i Goleg Caerfyrddin yn Ysgol Parcyfelfet, dan ofal y Parch. Titus Evans, tad prif athraw presennol y coleg. Ymadawodd â'r coleg yn Ionawr 1856, i gymmeryd gofal yr hen Eglwys Bresbyteraidd yn Mlaengwrach. Adfywiodd yr achos yno yn fawr dan ei ofal, ond rhy brin oedd y moddion cynnaliaeth; ac felly, pan gychwynwyd yr achos newydd yn y Cwmbach yn 1859, derbyniodd Mr. Lloyd alwad unfrydol oddiyno, ac yno y bu, yn gweithio yn ddyfal am yn agos 33n mlynedd, er nad heb weled llawer o *ups and downs*.

Yr oedd wedi priodi cyn ymadael â Blaengwrach, ac fe gafodd yn Mrs. Lloyd amgeledd gymhwys, un yn barod i'w gynnorthwyo yn mhob cyfeiriad, un nad oedd ei goreu byth yn ol, na'i lle byth yn wâg yn y cwrdd nac yn yr Ysgol Sul, un a deimlai ddyddordeb yn y plant, a chanddi rywbeth yn wastad i dynu eu sylw a'u serch. Bu farw Mrs. Lloyd Tachwedd 29, 1891.

Cyflawnodd Mr. Lloyd ei ddyledswyddau amrywiol trwy'r blynyddau fel gweinidog a bugail ac ysgolfeistr yn ffyddlon a chydwybodol—yn galonog weithiau am fod y gynnulleidfa yn llewyrchus a gobeithiol, a thrachefn weithiau yn drist a digalon am ei bod megys yn diflanu dan ei ddwylaw. Dybyna cynnulleidfa'r Cwmbach yn fawr ar sefyllfa masnach y glo yn y lle. Ryw hanner dwsin o weithiau yn ei amser, gwelodd yno gynnulleidfa flodeuog, a phan fyddai masnach yn lleihau, a'r bobl yn gorfod ceisio maesydd cynnaliaeth mewn cyfeiriadau ereill, fe'i gwelodd drachefn fwy neu lai yn diflanu. Trwy yr oll, fodd bynag, ffynai cydymdeimlad a pharch cydrhwng bugail a phraidd.

Yr oedd gan Mr. Lloyd lyfrgell fawr, darllenai'n ddiwyd, a rhoddai ffrwyth ei fyfyrdod i'w bobl. Anhawdd fyddai cwrdd ag un mwy cydwybodol gyda'i waith. Hyd yn gymharol ddiweddar, ysgrifenai ddwy bregeth bob wythnos, ac anfynych y diangai wythnos heb un newydd. Cofiwn awgrymu iddo un tro y possibilrwydd iddo wneuthur gwell gwaith trwy gwympo yn ol weithiau ar ambell i hen bregeth a chaboli tipyn arni. Ystyriwn I'r pryd hwnw, ac ystyriaf etto 'nawr, ei bod yn

ormod gwaith i un dyn cyffredin ysgrifenu dwy bregeth newydd dda bob wythnos, ond ni fynai efe ei argyhoeddi. Yr oedd rhai o'i bregethau yn odidog dda, ac yn teilyngu gwell tynghed nâ'u bwrw i'r fasged a dyfod yn fwyd llygod ar ol un darlleniad yn unig. Carai ei lyfrgell, a threuliai ei nifer pennodedig o oriau ynddi bob dydd. Yr oedd yn wahanol yn hyny i'r offeiriad hwnw—yr *hunting parson*—am yr hwn y dywedid fod un man, pe gwyddai'r ysgyfarnog am dano, y gallai'n ddyogel ymguddio ynddo heb i'r offeiriad byth gael gafael arni. Ei lyfrgell oedd y man hwnw. Nid oedd Mr. Lloyd un amser yn fwy hapus nâ phan yn ei lyfrgell, â'i ysgrifell yn ei law. Yn ystod y deuddeg mlynedd y bu'r YMOFYNYDD dan fy ngofal I, cefais ef y ffyddlonaf o'm gohebwyr.

Anfynych yr esgynai i'r pwlpud heb bregeth ysgrifenedig, ond pan yn darllen, fe'i gwnelai yn wastad gyda llawer o fywiogrwydd a gwres, fel nad oedd perygl i'r gynnulleidfa fyned i gysgu. Ymarferol fynychaf oedd ei bregeth gartref—er addysg ac adeiladaeth; ond fel Mr. James, Llandyssul [gweler YMOFYNYDD Awst, t. 172], elai ar y *war path* yn achlysurol, a chreai dipyn o gynhwrf. Nid oedd y fath *style*, fodd bynag, yn gweddu iddo. Trwsgl oedd yn trin arfau rhyfel. Rhaid bod yn gynnil i wneuthur gwaith rhyfel yn foddhaol yn y pwlpud, yn enwedig pan fyddo'r gelyn o hyd clyw; a phan na fyddo o hyd clyw, nid oes eisieu chwareu taranau. Gallwn faddeu llawer i Martin Luther a John Calvin, Whitfield a Wesley, Rowlands a Howell Harris, Priestley a Belsham a John James: yr oedd rhywbeth yn eu cyssylltiadau cymdeithasol hwy—y teimlad o wrthwynebiad a'r ysbryd erlid a gyfarfyddent—yn naturiol yn eu cynhyrfu i fod ar eu hamddiffyniad, ac yna weithiau i fod mewn ysbryd ymosodol; ond gwell, fel rheol, yn fy ngolwg I, ydyw meddiannu a dangos ysbryd Paul, er enghraifft, pan yn anerch yr Atheniaid oddiar yr Areopagus. Mor foneddigaidd oedd Paul, mor wyliadwrus i ochelyd pob gair allasai roi tramgwydd! Amcanai at argyhoeddi, a chredaf mai ei gynllun ef yw y mwyaf effeithiol i hyny.

Fe ŵyr darllenwyr YR YMOFYNYDD yn dda mor dderbyniol oedd gwasanaeth Mr. Lloyd yn ein cyfarfodydd chwarterol. Yr oedd yn llwyddiannus yn gyffelyb gyda'i ysgol ddyddiol a'r Ysgol Sul. Yr oedd o ysbryd rhyddfrydig, a phan fyddai cwrdd mawr gan un o'r enwadau, rhoddai Mr. Lloyd ei Ysgol Sul heibio, ac elai efe a'i gynnulleidfa i'r capel arall i wrando. Trwy ei hynawsedd a'i barodrwydd cymmwynasgar, ei ddoethineb a'i wybodaeth eang, ennillodd barch ei gymmydogion, fel yr oedd galwad mynych arno i'w gwasanaethu mewn llawer ffordd. Er na chredent, fe allai, yn ei dduwinyddiaeth, credent yn ei ddynoliaeth. Nid oedd ganddynt neb gwell ar gyfer dyledswyddau'r bywyd hwn, ac felly, dewisent ef yn barhaus fel cynnrychiolydd drostynt i wahanol gyfarfodydd cyhoeddus. Bu'n aelod o wahanol gymdeithasau politicaidd o bryd i bryd, a chredwn iddo fod dros dymhor yn aelod o'r Bwrdd Ysgol ac o'r Bwrdd Iechyd yn Aberdar.

Daeth ysgrifenydd y llinellau hyn gyntaf i adnabyddiaeth ag ef yn Nghaerfyrddin, yn Mehefin, 1855, ac aethom yn ffryndiau gwresog ar

unwaith. Trwy yr oll bron o'r blynyddoedd meithion hyn buom yn gymmydogion agos ac yn gyfeillion mynwesol, ac er yn gwahaniaethu mewn llawer cyfeiriad—mewn chwaeth ac mewn arferion—ni ddygwyddodd dim erioed i lacâu rhwymyn ein cyfeillgarwch. Yr oedd ei help bob amser yn barod pan fyddai angen, fel y gŵyr y cynnulleidfaoedd cyfagos, a'i gydweithrediad lle bynag y byddai galw. Cymmerai ei ran yn wastad gyda phob mudiad newydd i estyn cortynau yr enwad, a phregethodd lawer o bryd i bryd yn Mountain Ash, Cwmaman, Penderyn, Dowlais, Cwmbargoed, Tonypandy, Treorci, Rhigoes, &c. Bu'n offerynol i gael capel newydd yn y Cwmbach, a'i gael yn glir o ddyled.

Yr oedd yn ddyn o natur ffein ac o gydymdeimlad hyfryd, yn onest a didwyll trwyddo; yn gallu chwerthin yn iach a chalonog ac heb ddim cil-bwt. Gwyddai beth oedd bod yn llawen gyda'r rhai oedd yn llawen ac wylo gyda'r rhai oedd yn wylo. Nid oedd yn berffaith: dyn oedd. Perthynai iddo ei ffaeleddau; ond yr oedd iddo ei rinweddau amlwg a lluosog. Cyflawnai ei waith bugeiliol gyda doethineb a thact. Er fod ei gynnulleidfa yn wasgaredig, talai ei ymweliadau, tra gallodd, yn rheolaidd, ac heb annghofio y tlawd a'r claf yn enwedig; a phan aeth i fethu gan afiechyd, elai ei gydmar serchog â'r gair o gydymdeimlad i'r pellenigion yn ei le. Gwyddai werth crefydd trwy brofiad, a thrwy ei hir gystudd, cafodd ynddi foddion i'w gadw a'i gynnal yn dawel a dirwgnach. Nid ymddangosai ei fod yn pryderu dim yn nghylch y dyfodol. Yr oedd wedi hir gynnefino â llwybr y goriwaered. Gwyddai nas gallai'r diwedd fod yn mhell. Carai ymweled â'r fynwent a bedd ei briod, lle gallai gyffroi hen adgofion melus, ac adnewyddu a chryfhau gobeithion dysglaer, ac ymgynnefino â phrofiadau newyddion y byd a'r bywyd newydd. Yr oedd yn wastad wedi bod yn weddiwr.

"Beth gwell yw dyn nâ'r hydd, neu'r oen, neu'r myn,
Feithrina yn ei 'menydd fywyd dall,
Os, heb adnabod Duw, ni ddyrcha law
Mewn gweddi drosto'i hunan a'i holl gâr."

Teimlai ei fod yn cael dyddanwch a nerth adnewyddol trwy gymundeb â'r Tad Goreu.

Iechyd canolig oedd ein hanwyl gyfaill wedi gael er ys amryw flynyddau. Mor bell yn ol â 1883, aeth trwy bwl o glefyd trwm, a buwyd yn amheu a wellai. Cafodd wedi hyny lawer pwl o'r un clefyd—y *rheumatic fever*—a phob un yn ei adael yn wanach nag o'r blaen, nes o'r diwedd iddo, yn Ionawr, 1892, orfod tori ei gyssylltiad â'i bobl anwyl ac ymneillduo i'w ardal enedigol, i dy ei chwaer, Mrs. Phillips, Bwth y Winwydden, Drenewydd yn Notais, yr hon a ofalodd am dano yn dyner a charuaidd hyd y terfyn. Ar y 15fed o Fehefin fe'i tarawyd gan yr *apoplexy*, ac wedi yspaid o boenau dirdyniadol i bob ymddangosiad—er fod y meddyg yn amheu a oedd yn teimlo ei boen—fe'i rhyddhawyd boreu dydd Sul, yr 17eg. Y Mercher canlynol hebryngwyd y corff i fynwent Eglwys y Drenewydd. Gwasanaethwyd yn yr angladd, yn y ty gan y Parch. Mr. Evans (A.), ac yn y fynwent gan y

Parchn. J. J. George ac R.J.J., Aberdar, a'r Parch. Mr. Miles (B.), Porthcawl.

Gyda chof hiraethlawn, gyda theimladau drylliedig, y gadawn ein cyfaill anwyl. Ffarwel, ffarwel, ond

"Henffych i'r dydd cawn etto gwrdd!"*

R. J. J.

YR HAF.

Y DDAEAR mewn gwisg arian,—ac anian
Yn gwenu fel baban
A osodwyd mewn sidan
Yn ei gryd yn glyd a glan.

Mor hwylus mae'r awelon—ar eu hynt
Yn yr Haf hyfrydlon;
Ior ein ffydd a rydd yr Haf
Yn ddianaf i ddynion.

Ceir heulwen deg ar olwyn dydd—o Haf
Hefyd, fy narllenydd;
Gwna'r wybren mor ysplenydd,—nes ei bod
Yn ei lliw hynod yn dwyn llawenydd.

Corau o adar caredig,—unant
I ganu'n frwdfrydig;
A derbyniad arbenig
Yn yr Haf i loni'r wig.

Y dryw bach, bach, byw, dry a'i big
Ei gywir nodau'n grynedig.
Swynol dros ben yw seiniau—pur, addas,
Pereiddiol ei enau;
Mewn llon hwyl mae'n llawenhau,—mae'r seiniwr
Yn gywir arwr ar ein gororau.

Y deryn du a dry'n deg
Ei nodau dan ehedeg;
Yn ddioed bydd ar goeden,
A dawn y byd yn ei ben.
Er yn ddu, mae ei gu gân
Yn synu eos anian!

---

* Yr oedd dydd yr angladd ar ddydd y Cwrdd Blynyddol yn Mhantdefaid, yr hyn a fu'n rhwystr i lawer o'i hen frodyr yn y weinidogaeth fod yn bresennol. Brawd i Mr. Lloyd yw y Parch. J. B. Lloyd, Bournemouth, a nai, mab chwaer, yw y Parch. W. J. Phillips. Mae y darlun oddiwrth photo ugain mlwydd oed. Nid oes un diweddarach i gael.

Yn deg ei hacen y daw y gwcw
Ar ddydd heulog yn selog i'n sylw,
A'i chywir awen beraidd a chroyw,
A'i gwir lawenydd yn ein gorlanw—
Yn ddwy acen oddi acw,—dry'r byd
I synu enyd yn swn ei henw!

Hudolus gân dlos, gynhes,—a genir
Gan y fronfraith eres;
Mae'n dwyn o lwyn i lwyn les—
Gu, naturiol gantores.

Yr adar mân i gyd ganant—odlau
Hyawdledd a hidlant;
I'r Duw uniawn ordeiniant
Gerddi teg o urdd eu tant.

Nwyf elfen y nefolfyd—wefreiddia'n
Fawreddog drwy'r hollfyd;
Llon, bywiog, mae'n llawn bywyd,
"O! na fyddai'n Haf o hyd."

Trebanos. BEN DAVIES.

Y PETHAU A GREDIR GENYM.

GAN Y PARCH. W. GRIFFITHS, B.D., PH.D.

(Parhad o tud. 177*).*

LLYDANRWYDD Y WIR EGLWYS.

Nid yw y Wir Eglwys mor gul a chyfyngedig ag y myn rhai i ni gredu ei bod. Cynnwysa nid rhyw ffafredigion, ond pawb ydynt yn ymegnio i ochelyd y drwg ac i wneyd y da, pawb ydynt yn cydymffurfio â deddfau cyfiawnder, gwirionedd, a daioni. Meddyliai yr Iuddewon nad oedd neb ond hwy i gael derbyniad iddi. Gwrthwynebai yr Apostol Pedr y cynllun o gymhell y Cenedloedd i fewn, hyd nes iddo weled gweledigaeth y llenllian. Argyhoeddodd hono ef o'i gamsyniad. Mewn canlyniad iddi aeth gyda pharodrwydd i dŷ Cornelius. Yn ei anerchiad yno, dywedodd eiriau y byddai yn dda i ni eu cofio a gweithredu yn eu hol. "Yr wyf yn deall mewn gwirionedd," meddai, "nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb; ond yn mhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymmeradwy ganddo ef" (Act. x. 34). Nid yw ond beiddgarwch rhyfygus i ddweyd nas gall dyn fod yn Gristion, am nad yw yn cydymffurfio â rhyw gyfres o delerau osodir i lawr gan enwad neu enwadau neillduol. Fel y mae goreu y modd, nid yn llaw enwad neu eglwys neillduol y mae agoriad teyrnas nefoedd.

Nid yn ol awgrymiadau dynion y mae Duw yn ymddwyn at y rhai ydynt yn ei garu ac yn ymdrechu i'w wasanaethu. Pe gallai ambell enwad crefyddol gael ei ffordd cauai Dduw allan oddiwrth ereill. Dyna'r fath annheilyngaf o anffyddiaeth yn ol Dr. Fairbairn. Dywed yr ardderchocaf o'r ddau, meddai efe, Nid oes un Duw. Dywed yr annheilyngaf, Y mae Duw yn bod, ond rhaid i bawb agoshau ato yn y ffordd ragnodir genyf fi a'r eiddof. Nyni yw y cyfrwng cyfammodol, drwy ba un y derbynia dynion ras; hebom ni y mae trugareddau Duw yn afreolaidd, yn annghyfammodol, ac allan o'r cylch arferol yn eu gweithrediad ac yn eu canlyniadau. (Christ in the Centuries, tud. 33). Nid yw y Duw holl-bresennol i gael ei gyfyngu o fewn terfynau sect, bydded hono y sect fwyaf lydan.

CYSSEGREDIGRWYDD LLEOEDD AC AMSERAU.

Nid yw gweithrediadau yspryd Duw yn gyfyngedig i leoedd nac amserau arbenig. Mae pob modfedd o'r ddaear yn dir sanctaidd, a phob dydd o'r wythnos yn ddydd cyssegredig. Arferid gwahaniaethu rhwng swyddi bydol a swyddi crefyddol. Nid yw y cyfryw wahaniaeth ond arwynebol, ac nid oes sylfaen iddo o gwbl yn natur pethau. Mae yn bossibl i weithiwr, beth bynag fyddo ei alwedigaeth, wneyd ei waith mewn yspryd mor grefyddol a'r pregethwr pan yn troddodi ei bregeth, neu'r clerigwr pan yn myned drwy ffurf-wasanaeth yr eglwys y perthyna iddi. Mae gwahanol gylchoedd bywyd yn gyssygredig, neu yn annghyssegredig yn ol yr yspryd yn mha un yr eir drwyddynt, ac yn ol y lles a ddeillia drwyddynt. Nid dim ond ar fynydd Gerizim, neu yn y Deml yn Jerusalem; nid dim ond yn yr eglwys sydd wedi ei chyssegru yn ffurfiol, neu yn y capel y deuir i gyffyrddiad â Duw. Mae Duw yn mhob lle, ac y mae pressenoldeb Duw yn gwneyd pob lle yn gyssegredig. Nid dim ond yn hanes cenedl Israel y gwelir arwyddion o arweiniad Duw. Dan ei arweiniad Ef cyfranodd Groeg a Rhufain fel Palestina, gyfroddion pwysig er parotoi y byd ar gyfer Cristionogaeth. Os cynnysgaethwyd yr Israeliaid ag athrylith grefyddol cynnysgaethwyd hefyd y Groegwr ag athrylith at wyddor, celf, ac athroniaeth, a'r Rhufeiniwr ag athrylith at wladlywiaeth a deddfwriaeth. Yr oedd y cenedloedd hyn, bob un yn ei ffordd ei hun, yn gweithio allan fwriad Duw. Mae Duw hefyd yn ymwneyd a'r cenedloedd ydynt ar chwareufwrdd amser yn bresennol. Nid yw Efe wedi gadael un o honynt iddi ei hunan.

CYNNYDDOLRWYDD A PHARAUSRWYDD DATGUDDIAD.

Er ein bod yn credu fod Duw wedi rhoddi datguddiad o hono ei hun yn y Beibl, nid ydym yn credu fod Datguddiad yn gyfyngedig i'r Beibl. Credwn fod Duw yn parhau i ddal cymundeb â dyn, i'w ysprydoli, ac i amlygu ei feddwl iddo. Y rheswm na fyddai pob enaid yn cael datguddiad arbenig, neu annghyffredin o Dduw yw ei annghyfaddasder i dderbyn. Rhaid cael llygad i weled, ac enaid i amgyffred. Fe wêl y sylwgar ryfeddodau mewn pethau ymddangosant yn gyffredin i'r disylw.

Fe glyw y cerddgar fiwsig cydgordiol mewn seiniau nad ydynt yn cyfleu yr un syniad o gydgordiad i'r hwn sydd yn amddifad o glust at fiwsig. Yr enaid sydd a chymhwysder i dderbyn, sydd yn derbyn datguddiad. Fe wêl yr enaid craffus ddatguddiad o Dduw yn mhob peth ac yn mhob man. Fe glyw yr enaid gwrandawgar lafar Duw mewn pob goruchwyliaeth. Mae y nef yn agored heddyw i'r hwn sydd yn meddu gweledigaeth ysprydol digon clir. Datguddiadau o Dduw yw darganfyddiadau gwyddoniaeth. Dyna fel yr edrycha pob gwyddonydd dywiolfrydig arnynt. Mae pob un felly yn barod i ddweyd gyda Kepler y seryddwr, "O Dduw, yr wyf yn darllen dy feddyliau ar dy ol." Darllen meddyliau Duw ar ei ol wna y daearegwr duwiolfrydig, pan yn olrhain natur a ffurfiad yr haenau yn nghrystyn y ddaear. Dyna wna y seryddwr pan yn gwylio cylchdroadau a rheoleidd-dra y bydoedd wybrenol. Dyna wna y fferyllydd pan yn cario yn mlaen ei arbrawfiadau. Mae y ddatguddiad o Dduw yn parhau, ac fe barha cyhyd ag y pery eneidiau dynol i ymddadblygu.

BUDDUGOLIAETH DDIWEDDOL DAIONI.

Nid oes eisieu i ni sylwi gyda rhyw graffder neillduol, er cael prawfion fod daioni a drygioni mewn rhyw fath o frwydr a'u gilydd. A ydyw yr ymgyrch i barhau, neu a oes un o honynt i orchfygu y llall? Cawn hanes yn llyfr Samuel (2. iii. 1) fod rhyfel wedi para am dipyn rhwng dau deulu am freniniaeth llwythau Israel. Tra yr oedd un o honynt yn myned gryfach, gryfach, yr oedd tŷ y llall yn myned wanach, wanach. O'r diwedd cariodd Dafydd y dydd ar dŷ Saul. Rhywbeth yn debyg yr edrychwn ni ar yr ymgyrch rhwng da a drwg. Credwn y bydd iddi ddarfod rywbryd. Credwn fod y da yn dragwyddol, ond nid y drwg; credwn fod rhinwedd i orchfygu pechod, gwirionedd i orchfygu twyll, a daioni i orchfygu drygioni. Nid ydym felly yn credu fod tynged dyn yn y sefyllfa ddyfodol yn cael ei phenderfynu yn derfynol ar ei fynediad i'r sefyllfa hono. Credwn y bydd i ddylanwadau daionus ysprydol Duw barhau i ddilyn y pechadur. Mae ynom hyder cryf y bydd i Dduw yno fel yma, ymddwyn tuag atom fel Tad doeth a chariadlawn.

"Ein hyder yw mai rhywfodd da
Fydd diwedd pob daearol foes,
Pob poen, a phob ewyllys groes,
Amheuaeth a phob dynol bla;

Yn ddall na rodia dim ei daith,
Na chollir dim un bywyd byth,
Na thaflir dim i ddamniol nyth,
Pan ddygo Duw i ben ei waith.

Ychydig wyddom am ei ffyrdd,
Ond credu wnawn mai da a fydd
Ryw ddydd yn mhell—i bawb ryw ddydd
Y try pob gaua'n wanwyn gwyrdd."

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.

Drwg iawn genyf na fuasai hanes y Cyfarfodydd Blynyddol yn Mhantdefaid, yr 20fed a'r 21ain o Fehefin diweddaf, wedi ymddangos yn yr Ymofynydd am Awst. Gweinidog y capel, lle cedwir y cyfarfodydd, fel rheol, os nid yn ddieithriad, sydd yn arfer ysgrifenu hanes y cyfryw; ond, gan nad oeddwn mwyach yn weinidog Pantdefaid, ac wedi cael ar ddeall, yn rhyw sut, fod arall yn bresennol a fyddai i ymgymmeryd â'r gwaith, esgeulusais I anfon *report*. Yn dra thebyg mai myfi gamddeallodd, ac mai arnaf fi oedd y bai. Yr wyf, gan hyny, yn deisyf maddeuant y Golygydd, yn nghyd a'r cyfryw o ddarllenwyr yr Ymofynydd ydynt yn teimlo dyddordeb yn ein cyfarfodydd, ac yn hoff o ddarllen eu hanes. Gobeithio y rhydd yr adroddiad canlynol foddlonrwydd, i ryw fesur o leiaf, er yn ddiweddar.

Nis gellid cael tywydd mwy ffafriol, ac nid oedd, ar a wyddid am dano, un amgylchiad i rwystro cyfeillion cymmydogaethol a phellenig i fod yn bresennol, os yn ewyllysio hyny; ac ni fuwyd yn ol o ewyllysio ac ymgynnull wrth y cannoedd, yn enwedig dydd Iau. Sasiwn Llangeitho ydoedd, ar *scale* fechan; ond nid oedd yn Mhantdefaid werthu rhacanau. Ni welwyd cyfarfodydd mwy lluosog, na chwaith mor lluosog, oddiar gychwyniad Undodiaeth yn y plwyf. Planwyd yr hedyn mwstard yma ddechreu y canrif hwn, er, fe ddichon, fod parotoadau yn cael eu gwneuthur tua diwedd y canrif blaenorol. Rhyfedd fod yr hedyn wedi tyfu o gwbl, gan gymmaint o ddamsang fu arno am flynyddoedd lawer gan Iawnffyddwyr anffaeledig, fel y tybient eu hunain i fod. Erbyn heddyw, mae yr achos Undodaidd wedi llwyddo—llwyddo mewn dylanwad cymdeithasol, ac yn nifer ei bleidwyr. Nid yw Undodiaeth yn cael ei gadael yn ddisylw a diystyr yn y cymmydogaethau hyn yn awr. Mae amser *crio auctionau*, pan fyddai'r pregethwr ar hanner ei bregeth, yn mhlith y pethau hynod a fu. Mae yr awyrgylch wedi cael ei dylenwi ag Undodiaeth, ac y mae yspryd cydymdeimlad a chariad brawdol yn ffynu yn gyffredinol lle mae Undodiaid ac Undodiaeth wedi cael eu hadnabod.

Yr oedd yn dda genyf weled cynnulliad mor lluosog o'r de ac o'r dwyrain, o'r gogledd ac o'r gorllewin, yn cael ei wneuthur i fyny o Eglwyswyr, ac o Ymneillduwyr o wahanol enwadau. Teimlwn felly yn neillduol, o herwydd mai hwn oedd y cyfarfod olaf i gael ei gynnal yn Mhantdefaid, pan oedd genyf fi ran yn y trefniadau arferol fel diweddar weinidog y lle. Bu'r cyfarfodydd hyn yn llwyddiant hollol. Carwn fyw, ond yn debyg na byddaf, i weled cyfarfod cyffelyb etto yn Mhantdefaid neu Gapelgroes. Yr wyf yn teimlo dyddordeb yn yr achos Undodaidd yn mhob man; ond, gan mae yn Mhantdefaid a Chapelgroes y treuliais fy holl fywyd gweinidogaethol, er gwell ac er gwaeth, y mae yn naturiol fod y cynnulleidfaoedd hyn yn cael lle agosach at fy nghalon nâ'r cynnulleidfaoedd ereill yr un mor deilwng, os nid mwy. Yn nghladdfeydd y ddau gapel hyn, yn benaf, y gorwedd yn eu beddau berthynasau a chyfeillion anwylaf fy mywyd; ond, paham yr af yn mlaen fel hyn hyd linellau prudd-der a dagrau? Y mae

fy ysgrif-bin yn myned ar grwydr ar fy ngwaethaf, yr hyn sydd yn brawf o rywbeth. Gwnaed y darllenydd allan beth yw.

Dechreuwyd y cyfarfod yn Mhantdefaid hwyr dydd Mercher am chwech, gan y Parch. R. C. Jones, o Lanbedr. Buaswn yn dweyd rhywbeth yn y fan hon yn y *superlative degree*; ond barnaf y byddai yn well gan Mr. Jones i mi beidio. Cafwyd pregethau da gan y Parchn. J. Fisher Jones, Cwmbach, a Jenkin Thomas, Aberdar, yn eu dillad goreu. Cafodd y gwrandawyr foddlonrwydd mawr yn y ddau, a bydd yn dda ganddynt eu clywed etto. Pregethwyd hefyd yr un amser yn Nghapelygraig gan y Parchn. J. Hathren Davies, Cefncoed, a Dr. Griffiths, Pontypridd, a'r cylchoedd. Cafwyd pregethau grymus a sylweddol, fel y clywais. Yr oedd yr hin dranoeth, drwy'r dydd, yn wir swynol, a phobpeth yn cydweithio er llwyddiant y cyfarfodydd oedd i ddechreu am 10. Deallwyd na fyddai lle i hanner y bobl yn y capel, felly codwyd y ffenestri, er rhoddi pob chwareu teg dichonadwy i'r dyrfa fawr oedd oddiallan yn y fynwent. Cychwynwyd y cyfarfod gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn un o'i hwyliau goreu a llawnaf o ysprydoliaeth. Pregethodd Dr. Griffiths bregeth ragorol; ond ni raid ei chanmol yma, oblegyd ymddangosodd, wedi hyny, yn yr Ymofynydd. Os gadawodd Dr. Griffiths y Drindod a'r pynciau hanfodol i'r athrawiaeth hono ar ol, dygodd gydag ef y dawn a'r tân sydd braidd, gellir dywedyd, yn eiddo etifeddiaethol gweinidogion y gwahanol enwadau crefyddol. Pan adawodd rengoedd y Trindodiaid, bu yn hollol onest, ond gyda golwg ar y ddau *article* a enwyd. Ar ei ol, pregethodd y Parch. Mr. Robinson, o Abertawe, yn Saesneg. Pregeth odidog oedd hon, a thrueni na fuasai pawb a'i clywodd yn ei deall.

Dechreuwyd cyfarfod y prydnawn gan y Parch. David Evans, Cribin, gyda phriodoldeb mawr. Dewiswyd i'r gadair y diweddar weinidog y lle, ac yna darllenwyd papyr llafurfawr a dyddorol gan y Parch. J. Hathren Davies ar "Undodiaeth a'r Dyfodol"—yr un pwnc a siaradwyd arno, wedi hyny, gan Mrs. Humphrey Ward, yn Essex Hall, Llundain. Nid wyf yn awgrymu, cofier, fod Mrs. H. Ward wedi benthyca dim oddiwrth Mr. Davies. Yr oedd y drefn yn eitha hapus, a'r sylwadau yn galonogol iawn i'r Undodiaid, ond iddynt hwy wneuthur eu rhan. Rhy ddifater yw'r Undodiaid, gydag ychydig eithriadau, yn ofni gweithio, rhag ofn i'w sel eu cario i eithafion. Gobeithio y gwna Dr. Griffiths ofalu fod yr Undodiaid ieuainc sydd yn codi, yn fyfyrwyr a lleygwyr, ar eu goreu i gadw'r tân, nid yn unig yn fyw, ond i'w borthi, nes yn fflamio ar aelwydydd ein Seion. Wedi gorphen darllen y papyr, llefarwyd arno yn mhellach gan Mr. Bowen, o Banteg, ond yn yr un cyfeiriad. Ar ol hyn, bu ychydig ymgypris rhwng gwr ieuanc o Wesleyad, newydd ddyfod i Landyssul, a Dr. Griffiths, yn mherthynas i Dduwdod Crist.

Yn yr hwyr, am chwech, dechreuwyd y cyfarfod gan Mr. Lewis Williams, myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin, yn ddeheuig iawn. Yna coronwyd holl gyflawniadau y dydd a'r dydd o'r blaen gan ddwy bregeth benigamp, gan y Parchn. R. C. Jones a John Davies.

Dylaswn ddweyd yn gynt, efallai, i Mr. Jones, o Aberdar, fethu bod yn bresennol yn y cyfarfodydd, o herwydd gorfod o hono weinyddu yn angladd Mr. Evan Lloyd, Cwmbach. Yr oedd Mr. Ifor Davies, hefyd, yn absennol o herwydd rhyw reswm neu gilydd. Cafodd ein myfyrwyr oll eleni y cyfleusdra o fod yn bresennol yn ol yr hen gwstwm. Gobeithio y bydd hi felly bara yn y blaen. Nid iawn i mi gwpla hyn o hanes heb osod i lawr fod Mr. Jones, Curad Llandyssul, a Mr. Davies, gweinidog Pisgah, yn bresennol yn un neu'r llall o'r cyfarfodydd.

HEN GYMRU FYNYDDIG.

HEN Gymru fynyddig! clogwyni a bryniau!
Ei meibion sy'n esgyn i urddas a bri;
Eu lleisiau melodus, wrth ddringo y rhiwiau,
Sy'n adsain trwy gyrau ein hynys wen ni;
Banloriau yr estron sy'n frith gan ei phlantos,
Yn hawlio pob llygad, pob clust, yn mhob man,
Wrth olrain eu hanes i gyfnod y ddu-nos,
A'r curo diachos ddisgynodd i'w rhan.

Ysprydion hen arwyr fy ngwlad sydd yn gwylio
Eu meib a'u hymdrechion ardderchog a llon;
Hen ddewrder y tad wna i'r mab heddyw wrido:
Mae'r adgof am dano yn chwyddo ei fron;
P'le bynag ei dynghed dros for neu dros fynydd,
Yn anterth ei lwyddiant, yn nyfnder ei bla,
Hen gerddi swynhudol ei wlad hoff sy beunydd
Yn goglais ei galon fel hinon yr Ha'.

Hen Gymru fynyddig! hen wlad y caniadau!
Myn etto dy eiddo a'th lawryf glân, gwyrdd,
Dy faner i chwifio ar ben dy fynyddau,
A'th gerddi fel blodion ymylon dy ffyrdd;
Tra swn dy aberoedd, fel clychau o arian,
Yn chwareu cerddoriaeth lesmeiriol ei rhyw,
Boed un o'th fythynod i mi mwy yn drigfan,
Rhwng creigiau fy Nghymru 'rwyf bellach am fyw.

Cefncoed. CASWALLON.

ARWYDDLUNIOL yw hardd oleuni—gwyn
O ogoniant tlysni:
Gwyn yw ôd, a gwen yw hi,
Y loewlon brydferth lili.
—*O Awdl "Purdeb" H. Gwynedd Hughes, Llanrwst.*

HEN LYTHYRAU Y PARCH. TIMOTHY DAVIS, EVESHAM.

III.

Awst 5, 1851.

"Fe ddywed Mr. Thomas yn ei lythyr ataf, fod y *Traethodydd* wedi gorchymyn nad oedd un sylw i gael ei wneuthur o farn grefyddol fy nhad. Yr ateb oedd fod yn rhaid ei gymmeryd i gyd fel yr oedd, neu ynte ddim o gwbl. Yr oedd eich cydfyfyriwr David Evans yn meddwl fod yr erthygl yn ddiffygiol, ac nad oedd, mewn un modd, yn rhoddi darlun cywir o'r dyn. Pan ddarllenais yr erthygl gyntaf, fe'm tarawwyd yn fawr gan ei ddechreuad, 'Tua chan mlynedd yn ol,' gan fy mod wedi adwaen fy nhadcu a fy mamgu rai blynyddau cyn iddynt farw. Wedi ail ystyried, cefais fod fy nhadcu wedi myned i fyw i'r Goitre tua 115eg o flynyddau yn ol. Dywedais wrth Thomas ei fod wedi gwneuthur camgymmeriad yn nghylch lleoliad y Goitre. Nid yw ar y ffordd o Lanbedr i Gastell Newydd, ond ar y ffordd o Lanbedr i Dregaron, a thua 23n milldir o Gastell Newydd, ac nid deg neu ddeuddeg. Ond nid yw hyn o bwys. 'Ar lan Teifi lle tyfodd.' meddai un o gynnyrchion fy nhad. Diwlas oedd y ffrwd a redai heibio i'r Goitre, ac yno yn blentyn yr arferwn I a fy mrawd ddal pilcotiaid (sildod), a'u cario adre' i'w pobi wrth y tân.

"Nis gallaf lai na meddwl fod camsyniad, tud. 199, yn nghylch 'Cyfarfod mawr Castell Nedd.' Rhaid mai rhyw Ddafis arall oedd yno, gan na ddarfu i fy nhad erioed, mor bell ag y gwn I, bregethu i gynnulleidfa fawr yn Nghastell Nedd. Mae fy nghof yn ffres ddigon am 1799. Rhaid mai rhyw Annybynwr oedd.

"Yr oedd gan fy nhad chwech o frodyr; ni wneir sylw o'r brawd nesaf ato, nac o Mari ei chwaer, menyw o synwyr cryf da, a mam i deulu lluosog. Y mae Lewis, o'r Cilgwyn, ar fy nghais I, wedi casglu rhestr o ddisgynyddion fy nhadcu. Yr oedd wedi myned mor bell a 2 neu 300, pan glywais oddiwrtho. Yr oedd gan fy ewythr Joseph, Coedparc, 8 neu 10 o blant, fwyaf o honynt yn briod, a chanddynt deuluoedd. Y mae gan un o'i ferched, yn awr yn weddw, yn Blaenplwyf, Ystrad, 13 o blant, a 13 o wyrion. Y mae gan y rhelyw o blant Joseph deuluoedd lluosog—dau o honynt yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr, un yn America, ac un yn Sir Henffordd. Aeth fy ewythr Timothy i America yn 1800 gyda saith neu wyth o blant, fwyaf o honynt yn briod er ys blynyddoedd, ac yn gwneuthur yn dda.

"Dim ond Cyfrol IV. o'r *Traethodydd* sydd yn fy meddiant. Y mae yr hyn a ddywedwch am y rhifyn diweddaf yn fy synu. A ydyw y corff yn cymmeradwyo y fath beth? A ydyw'r *Traethodydd* yn cael ei ddarllen ganddynt?

Sylwais yn y *Welshman* am farwolaeth ddisymwth Saunders. Yr oeddwn yn adwaen hen Saunders, Undergrove, a'i fab David Saunders, pregethwr y Bedyddwyr, a bardd. Yr oedd brawd i'r hen Saunders yn weinidog yn Aberduar, ond trodd yn fedyddiwr cyffredinol, a phregethai yn fynych i gynnulleidfa fy nhad. Gwnaf ymofyniad yn

mhlith yr ychydig gyfeillion Cymreig sydd etto yn aros yn nghylch Saunders ifanc. Carwn wybod rhagor am dano, o herwydd ei barch i fy anwyl dad. Rhaid eich bod yn adwaen Mr. Thomas, fy ngohebydd, gan ei fod yn dyfod o Brechfa. Efe ddarfu ysgrifenu at Griffiths, Evans, Dr. Davies, &c. Pan ysgrifenais ato i ddywedyd fod Dr. Lloyd yn meddwl mai chwi oedd yr awdwr, dangosodd anfoddlonrwydd mawr. Pan nodais allan y gwallau yn yr erthygl, ni chlywais oddiwrtho byth mwy. Nis gwn a ddarfu iddo anfoddloni ai naddo."

IV.

At James Thomas, Llwynrhydowen, 2 *Ion.*, 1833.

(DYFYNIADAU).

Wedi cyfeirio at gopiau o bregeth a ddanfonwyd ganddo i ofal Josiah Jones, Dolwen; ac at erthygl yn yr *Unitarian Chronicle*, wedi ei llawnodi "Cardiganensis" ar Ystadegau Undodaidd, mae'n dywedyd, "Gwelais Mr. James Parry yn ddiweddar yn ei dŷ ei hun yn Cheltenham. Nid oeddwn wedi ei weled o'r blaen er ys 32n mlynedd, er ein bod gyda'n gilydd yn yr ysgol yn Nghastell Hywel am 14eg blynedd."

V.

Ionawr 30, 1834.

Sylwa ei fod wedi danfon 60 copi o bregeth i bobl ieuainc i Benjamin (ei frawd ?), pris 6c., ac ychwanega:

"Yr wyf yn cofio yn dda fod 20 neu 30 o bobl ieuainc wedi uno mewn cymmundeb yn y Llwyn, tua 30 mlynedd yn ol, pan ddarfu i mi bregethu sylwedd y bregeth Saesneg hon oddiar yr un testyn (Pregethwr xii. 1). Yr oedd Thomas fy mrawd yn un o'r nifer, a dywedodd wrthyf ychydig cyn ei farw, ei fod yn cofio'r dydd yn dda, ac yn cofio'r bregeth, yr hon oedd wedi gadael argraff ddofn ar ei feddwl. Yr wyf yn gobeithio y bydd i'r bregeth yn ei diwyg Saesneg fod o ryw fudd i'r ieuenctyd hyny yn Nghymru a goleddant ryw barch tuag ataf fi, ac yn meddu gwybodaeth o'r iaith Saesneg."

Medi 21, 1852.

Mae'n cyfeirio at y "Christian Reformer" gyda'i *Vignette* o gapel Evesham, ac at weithrediadau Thomas Griffiths yn America ac yn Lloegr. Fod Dr. Furness, mewn llythyr ato, yn dywedyd ei fod wedi treio eu pyrsau a'u hamynedd; ei fod yn ddiweddar wedi bod yn Kidderminster, ac am i Evan Jones ei gymmeradwyo i sylw Mr. Gibson, y gweinidog Undodaidd, ond nacaodd hwnw, a rhoddodd iddo hanner coron. Yn mis Tachwedd, ysgrifenodd at fy mherthynas, y Parch. John Davies (orwyr fy ewythr Joseph), Rheithor Llanhowel, yn Sir Benfro. 'Rwy'n falch fod ganddynt gapel newydd yn Cribin. Yr oedd yn waeth na hen ysgubor pan bregethais I yno ddiweddaf. Tro tost oedd i'r "young Lloyd" farw. Yr oedd Betsy Newgate, druan, a Thomas ei gwr, yn rhai o'm cyfeillion goreu. Mae genyf dri

o blant yn awr yn byw yn Lancaster. Y mae Elizabeth, yr ail ferch, wedi priodi er ys rhyw bedair blynedd, â Mr. Herford, gweinidog gyda'r Undodiaid; a Jane, y drydedd ferch, yn briod â dyn o synwyr da cryf, yr hwn fu'n arolygu y rheilffordd o Preston i C———. Fy nghofion cynhes at eich meibion a'ch merched, ac at Mrs. Jones—da genyf glywed ei bod cystal.

Awst 5, 1852.

Ceisiwch gan Mr. T. i ofyn i Mrs. Jones, chwaer Dr. Lloyd, roddi y cyfrif goreu a all am blant ei brawd, eu henwau, a'u hoedran, a'u sefyllfa. Y mae Mr. Aspland yn casglu defnyddiau i ysgrifenu hanes y capel yn Evesham, ac yr oedd Dr. C. Lloyd yn un o honynt. Yr wyf yn cofio yn dda fy mod yn neithor David, Gwardafolog, yn Mhentre Rhydowen, sef yn nhy ei dad, yn y flwyddyn 1788, pan yr oedd John Lloyd, Coedlanau, fy nhad, a C. Lloyd yn ymddyddan am ei ymweliad â Lloegr. Pa nifer yw plant Mrs. Jones?

Medi 21, 1852.

Mae yn son am farwolaeth "Mrs. Wells o Oldbury, yr hon a adwaenwn er pan y gwnaeth fy nghefnder sefydlu yno 40 mlynedd yn ol."

Gorphenaf 20, 1853.

Danfonais i chwi gopi o'r "Christian Reformer," yn cynnwys hanes gan y Golygydd ei hunan o'r Tŷ Cyfarfod yn Evesham, yn y rhifyn am Hydref diweddaf. Mae yr un boneddwr wedi ysgrifenu hanes cynnulleidfa Evesham. Darfu i Dr. Lloyd fy nghyhuddo I yn nhy cwrdd Cribin o fod wedi ysgrifenu yr hanes, ac "y byddai yn fwy gweddaidd i mi adael i'w ewythr orphwys yn ei fedd." Cyfeiria at nodyn yn Rhifyn Rhagfyr o'r "Christian Reformer," yr hwn, ebe fe, a ysgrifenwyd gan John Kenrick. Mae yn nodi gwallau yn y nodyn hwnw, na fuasai efe byth yn syrthio iddynt. Symmudodd Dr. C. Lloyd o Exeter i Sir Aberteifi, ac nid i Palgrave. "Bu ddwy neu dair blynedd (blynyddau nodedig) yn Sir Aberteifi cyn myned i Palgrave, ac yn ystod y blynyddau hyny gwnaethpwyd y rhwyg yn nghynnulleidfaoedd fy nhad, ac adeiladwyd Pantdefaid a Chapelgroes dan nawdd Dr. C. Lloyd. Yr oedd Dr. Lloyd yn byw yn Coedlanau, ac yn Llwynrhydowen. Yr oedd yn fy urddiad yn 1802. * * * Yr wyf yn cofio yn dda galw yn Nghaerfyrddin yn 1799, am ryw bethau oeddynt wedi dyfod iddo o Exeter.

ADDYSG GREFYDDOL YN EIN HYSGOLION DYDDIOL.

Mae'r cwestiwn o Addysg Grefyddol yn ein Hysgolion Dyddiol yn debyg o greu cryn dipyn o gynhwrf yn y byd addysgol a chrefyddol am ychydig o amser. Dylid diolch am hyn i'r blaid glerigol ar Fwrdd Ysgol Llundain. Ychydig amser yn ol, dechreuodd y blaid hon, yn cael ei harwain gan un Mr. Riley, gynhyrfu am gyfnewidiad yn y dull o gyfranu addysg grefyddol yn yr ysgolion dan eu gofal, gyda'r amcan

(honedig) o wneyd y gyfryw addysg yn un fwy Cristionogol. Pan basiwyd y Ddeddf Addysg yn 1870, darparwyd fod gan unrhyw Fwrdd hawl i bery fod addysg grefyddol yn cael ei chyfranu yn eu hysgolion; ond yr oedd y Ddeddf yn darparu, ar yr un pryd, y gallai rhieni wrthod gadael i'w plant fynychu'r ysgol ar amser cyfraniad y gyfryw addysg; ac hefyd, na ddylai yr un athraw gymmeryd mantais o'r sefyllfa i ddysgu unrhyw syniadau enwadol i'r plant dan ei ofal. Oddiar 1870 hyd yn awr, mae'r ddarpariaeth hon wedi gweithio yn hwylus, a gallem feddwl mai annymunol i'r eithaf ydyw ymyryd â hi; ond nid felly y tybia Mr. Riley a'i gyfeillion. Mynant i'r cyhoedd gredu nad yw'r addysg grefyddol a gyfrenir yn eu hysgolion yn foddhaol, ac y dylid gwneyd darpariaeth bellach er addysgu'r prif athrawiaethau Cristionogol (h.y., Iawnffyddol) i'r plant; ac yn eu cylchlythyr i'r athrawon, yr hwn a basiwyd ychydig amser yn ol gan y blaid glerigol, yr hon, ar hyn o bryd, sydd yn y mwyafrif ar y Bwrdd, gorchymynant iddynt "i argraffu ar feddyliau'r plant y berthynas oedd rhyngddynt â Duw Dad fel eu Creawdwr, a Duw Fab fel eu Pryniawdwr, ac â Duw Yspryd Glan fel Sancteiddiwr." Er mai amcan proffesedig y blaid glerigol, yn yr ymgyrch hon, yw sicrhau fod yr addysg grefyddol a gyfrenir yn yr ysgolion dyddiol yn fwy trwyadl ac effeithiol nag yw yn awr, mae eu hamcan gwirioneddol yn wahanol iawn. Fel y cyfaddefodd Mr. Riley yn un o gyfarfodydd y Bwrdd, eu prif amcan yw gwrthweithio cynnydd Undodiaeth; neu, yn ei eiriau ef ei hun, "yr oedd yr ymdrech yn un rhwng Cristionogaeth ac Undodiaeth," ac wrth Gristionogaeth y golygir y gyfundrefn Iawnffyddol. Yn yr ymgyrch hon, saif y blaid Eglwysig yn hollol ar ei phen ei hun; o herwydd mae'r pleidiau ereill wedi sefyll yn ddewr dros gadw at gytundeb 1870.

Penderfynir y cwestiwn yn mis Tachwedd, pryd y bydd yr etholiad. Yn y cyfamser, mae'r ddwy blaid yn gweithio yn egniol ar ei chyfer. Mae'n wir mai yn Llundain y mae'r ymdrech ar hyn o bryd, er hyny nid yw heb ddyddordeb i ni yn Nghymru; ac nis gallwn feddwl am y canlyniad heb rhyw radd o bryder, o herwydd os y llwydda y blaid glerigol yn Llundain i gael y mwyafrif o'u plaid yn y Bwrdd nesaf, ofnwn y gwneir ymdrechion, gan yr un blaid, mewn lleoedd ereill yn Lloegr a Chymru i gael yr Ysgolion Byrddol i'w llaw eu hunain, a'u darostwng i fod yn fagwrfa i'r Eglwys Sefydledig. Mor bell ag y mae a fynom ni fel enwad â'r mater, nid oes genym yr un achos i gwyno, o herwydd bydd y cynhwrf presennol yn sicr o fod yn foddion i dynu sylw atom, ac at ein syniadau, ac arwain rhai i weled eu rhesymoldeb; ond, mor bell ag y mae a fyno ag addysg, nis gall y canlyniadau lai na bod yn ddinystriol, yn enwedig felly os y llwydda'r blaid glerigol yn ei hamcan. Ein barn ni am y pwnc hwn yw na ddylid dwyn crefydd i fewn i'n hysgolion dyddiol mewn un modd. I ba beth mae ein Hysgolion Sul, a'r sefydliadau ereill cyssylltiedig â'n capeli a'n heglwysi, dda, os na allant ddysgu'r plant a ddygir i fyny ynddynt yn egwyddorion crefydd? Mae syniadau dynion am grefydd mor wahanol: ychydig iawn o ddynion fyddai yn foddlon cydnabod fod

dysgu'r plant i fod yn onest, yn eirwir, ac yn gariadus, yn addysg grefyddol; ac hyd nes y daw dynion i gytundeb cyffredinol yn eu darnodiad o grefydd, gwell yw ymddiried y cyfryw yn hollol i'n sefydliadau crefyddol. Er fod hyn yn mhell o feddwl y blaid glerigol ar Fwrdd Ysgol Llundain yn eu hymgyrch ffol bresennol, etto, nid anmhossibl nad hyn fydd y canlyniad cyn y diwedd.

A.B.

Y DDEDDF UWCH.

Y MAE pob dyn yn ymwybyddol o ddeddf hollol annybynol ar ei ewyllys a'i reddfau ei hunan, deddf nas dichon iddo yn onest wrthwynebu ei hawdurdod, er iddo drachefn a thrachefn ei gwneuthur yn ddyddim; deddf ag y mae ei llais gorchymynol—"Gwna," "Na wna," —yn rhagflaenu pob ymofyniad a ddichon gael ei wneuthur yn mherthynas i'w dechreuad neu ei tharddiad, ac heb fod yn dybynu ar un rheswm i'w sefydlu. Fod purdeb a charedigrwydd, a thrugaredd a chyfiawnder, ynddynt eu hunain, yn dda, ac yn orchymynol arnom, nad pa mor annghyfleus, nad pa mor annymunol; a bod creulonder ac anmhuredd, twyll a thrais, yn ddrwg, er i ni gael pleser ynddynt, a chael ennill drwyddynt; y mae y rhai hyn yn ffeithiau gwreiddiol a sylfaenol ein natur—ffeithiau a addefir gan ymwybyddiaeth pawb dynolryw. Fy ewyllys, eiddof fi yw; yr wyf yn rhydd i ladrata neu i ladd, i gashau neu i ddweyd celwydd; ond y mae rhyw allu, nad yw o honof fi, yn goruwch-reoli, neu, o leiaf, yn gwarafun i mi. Rhaid i mi beidio, nid am y caf fy nghospi, ond yn syml, ac yn unig, am y rhaid i mi beidio. Gorfyddir i mi feddwl am dano megys Ewyllys Uwch, yn cyfarfod â fy ewyllys I, ac yn peru i mi ei deimlo megys rhywbeth mwy na mi fy hunan, gyda bawliau arnaf ag y mae yn ofer i mi eu hamheu. Llais Duw ydyw: felly y dywed fy nghydwybod; felly y dywed yr Eglwys Gyffredinol, nid Eglwys Rhufain yn unig, ond pob eglwys, pawb dynion, ag eithrio yn unig y cenedloedd hyny nad ydynt etto wedi dechreu meddwl. Wrth gwrs, mi wn fod opiniynau ereill ar y pwnc hwn, ffurfiau ereill yn cael eu hawgrymu i esponio y Synwyr Moesol yma; ond nid oes yr un yn cael derbyniad cyffredin, nac un, mewn gair, yn cyfarfod â gofynion y pwnc. Paham na ddylwn I ladrata, paham na ddylwn I hyd y nod lofruddio, os yn berffaith sicr na chaf fy nala? Nid oes un ateb o werth, ond y ddeddf ei hunan, megys ffaith sydd annybynol arnaf fi, ac annybynol ar fy muddiannau, neu fy lles tymhorol. "Fy nghymmydog? Dynoliaeth? Ni'm dawr. Beth waeth i mi am y naill na'r llall? Mi wyf fy hun—yn teimlo fy mhleserau fy hun, fy mhoenau fy hun, ac nid eiddo dynoliaeth, a mi a wnaf yr hyn a gredaf fydd yn fanteisiol i mi fy hun." Mae tàranau megys o Fynydd Sinai yn fy nghynhyrfu hyd waelodion fy enaid, a llais Duw oddifewn yn llefaru, "Na wna," ac yn gwarafun i mi amheu.

Yr wyf yn ymwybodol o fy modolaeth fy hun, ac o fy ewyllys fy hun; yr wyf yn gyffelyb yn ymwybodol o Ewyllys nad yw eiddof fi, Ewyllys sydd yn dadguddio i mi allu; nid mi fy hunan yw, ac nid yw wrthddrych fy synwyrau; Ewyllys yr wyf mewn undeb agos â hi, ac i'r hon yr wyf yn teimlo fy mod yn atebol. Y mae fy nghrefydd I yma i gyd, heb ymgynghori â llyfr nac athraw, pwnc ydyw cydrhwng Duw a mi fy hun, ffaith nad oes angen ei phrofi; a'r oll y tu hwnt i hyn nid yw ond help, neu rwystr, nid yw yn perthyn i sylweddion crefydd

—*Y Parch. Charles Hargrove, M.A.*

NEHUSTAN (2 BRENH. XVIII. 4.)

Edrychodd Hezeciah ar y Sarff Bres, a gwelodd beth oedd—nid yn arwydd sanctaidd mwy, ond *sham*, cysgod, celwydd; ddim o un defnydd mwy, ond yn ddiffrwyth, a gwaeth na hyny; ddim mwy ag iddo un ystyr, neu ddim ond ystyr ffugiol. Fe'i galwodd mewn tôn o ddirmyg—"Nehustan"—darn o bres. Yr oedd angen i ddynion gael gweled beth oedd—Nehustan. Ac ni arosodd Hezeciah ar hyny; efe a'i "maluriodd." Nid oedd waeth gan Hezeciah am y teimladau cyssegredig oedd yn gyssylltiedig ag ef, pan yr oedd wedi myned yn ddarn halogedig. Nid oedd waeth ganddo ef iddo fod o ryw dda yn y Gorphenol, gan ei fod yn gynhyrfydd i ddrwg mawr yn y Presennol. Nid oedd waeth gan Hezeciah mai Moses, gwas yr Arglwydd, oedd wedi ei wneuthur; ewyllys Hezeciah oedd gwasanaethu yr Arglwydd trwy ei ddinystrio. Nid oedd waeth ganddo ef chwaith ei fod wedi ei wneuthur ar orchymyn Duw. Yr oedd gorchymyn Duw, nid yn y llythyren, ond yn yr ysbryd, iddo ef ei ddad wneuthur. Gwyddai y gallai y sefydliad mwyaf Dwyfol, y ffurf a'r arwydd mwyaf cyssegredig oroesi ei ddydd, a gwyddai pan gymmerai hyny le, fod y ddyledswydd amlwg, fod yr un llais sydd yn peru i un o weision yr Arglwydd greu, yn peru i un arall ddinystrio. Felly, daeth Hezeciah i fod y dinystrydd delwau—yr *iconoclast* cyntaf—y Diwygiwr cyntaf, y Puritan cyntaf. Wrth gwrs, perodd arswyd yn mynwesau ceidwadwyr y dydd, a chododd cri wylofus nad oedd hyn amgen na brad ar grefydd y genedl. Cymmerodd hyd y nod yr Assyriaid arnynt i geryddu Hezeciah am ei annuwioldeb. Pan ddaethant i fyny i Jerusalem, ceisiodd yr hyawdl a'r cyfrwys Rabsaceh ddenu ymaith y bobl oddiwrth eu brenin, trwy ddywedyd ei fod wedi ymwrthod â Jehofah, ac wedi amddifadu ei hunan o'i ffafr. Wel, a oedd yr Assyriaid bostfawr yn iawn? A oedd plant ofnus traddodiad yn mhlith pobl Hezeciah yn iawn? A oedd Hezeciah wedi fforffedu y ffafr Dwyfol trwy y briwo a'r malurio a wnaeth, a thrwy ei ymdrechion ereill i ddwyn yr addoliad i gydgordiad ag ysbryd ei ddydd ei hunan? Fe ddaeth yr ateb pan

"Ddaeth angel marwolaeth ar edyn y chwa,
Gan danllyd anadlu i'w gwersyll ei bla;
Nes gwneuthur pob calon, a llygad a grudd,
Mor oer ac mor farw a delw o bridd."

Ateb ffeithiau—yr ateb y mae hanes wedi ei adrodd drosodd a throsodd—oedd, nad diwygiad yw chwyldroad, nad yw y diwygiwr yn atheist, nad colli ond ennill mae crefydd trwy adael ar ol hen draddodiadau, hen ddefodau, a seremoniau ydynt wedi colli eu hystyr a myned yn ddiwerth, nad pa gymmaint o barch hynafol a berthyn iddynt; fod Jehofah yn edrych gyda chymmeradwyaeth ar y sawl a geidw yspryd y ddeddf, hyd y nod yn ngwyneb dannedd y llythyren. —*Y Parch. J. G. Skemp, M.A., Gweinidog y Bedyddwyr yn Pendleton.*

NODYNAU GWASGAROG.

Mewn cyfarfod o'r "British Association," rai blynyddoedd yn ol, terfynodd Esgob Wilberforce yr hyn a fwriadai i fod yn araeth orlethol yn erbyn Darwiniaeth trwy droi at Huxley a dywedyd yn mhresennoldeb tyrfa luosog, mewn aceniadau llymion, "Ydyw'r boneddwr dysgedig yn wir yn foddlon i'r son fyned allan i'r byd ei fod yn credu ei fod ef ei hunan wedi disgyn oddiwrth fwnci?"

Cododd Proffeswr Huxley, ac yn ei ffordd dawel ei hun, ond gydag effaith dychrynllyd, atebodd: "Ymddengys i mi nad yw'r esgob dysgedig braidd yn deall ein safle a'n dyledswydd ni fel gwyddonwyr. Nid ydym ni yma i ofyn beth sydd oreu genym, ond beth sydd wir. Mae cynnydd gwyddor wedi bod o'r dechreu yn frwydr yn erbyn hen ragfarnau. Nid yw pwnc dechreuad dyn yn bwnc cariad neu gas, i'w benderfynu trwy ymgynghori â'n teimladau, ond pwnc o *evidence* yw, i'w benderfyuu trwy ymchwiliadau gwyddonol gofalus. Ond os yw yr esgob dysgedig yn awyddus i wybod fy nheimladau I ar y pwnc, nid oes arnaf un pryder i ddywedyd, pe byddai yn fater o ddewisiad genyf (yr hyn yn amlwg nid yw) pa un ai i fod yn ddisgynydd oddiwrth fwnci *respectable*, neu oddiwrth esgob o Eglwys Loegr, yr hwn nid yw yn gallu gosod ei ymhenydd at well gwaith nag i wawdio gwyddor, a chamddarlunio ei phleidwyr, yn sicr, mi ddewiswn—y mwnci."

Darfu i'r Proffeswr Drummond ennill iddo ei hun safle o bwys yn y byd llenyddol trwy ei *Natural Law in the Spiritual World*. Ychwanegodd at ei boblogrwydd trwy ei gyfres o lyfrynau bychain, y rhai ydynt wedi gwerthu wrth y cannoedd o filoedd. Yr oedd yn naturiol dysgwyl ar ol hyny y cawsai ei lyfr diweddaf ar yr *Ascent of Man* (Esgyniad Dyn) roesaw mawr yn yr un modd. Ar y cyfan, felly mae. Wrth gwrs, y mae rhai yn rhuo. Tueddu i'w wawdio, yn hytrach, y mae

Kidd, gan ei ddesgrifio fel y "Poetry of Science," tra mae Dr. Dallinger yn ei feirniadu yn llym iawn. Addefir swyn yr iaith, eithr i'r iawngred nid yw y llyfr yn iach yn y ffydd. Ond y mae yn cael ei ddarllen. Nid yw yn cydnabod y Codwm yn Adda nac yn dangos yr angen o'r Codi yn Nghrist yn yr ystyr poblogaidd, Rhaid newid llawer ar gynllun y Drefn Gadw os yw llyfrau fel hyn i gael eu derbyn. Gofyniad cyntaf y pregethwr iawnffyddiog yw, A yw yn iach yn y ffydd? A yw yn gysson à'r gredo? Gofyniad synwyr cyffredin yw, A yw yn wir? Dyna'r peth pwysig, Eled y credoau lle'r elont.

Mae y Wasg Gymreig hefyd yn dechreu gosod allan arwyddion o ddeffroad, ac yn ymddangos fel pe byddai ar fedr cymmeryd i fyny bynciau ydynt hyd yma wedi bod yn ddyeithr iddi. I Eisteddfod Pontypridd yr ydym yn ddyledus am lyfr y Parch D. Adams, B.A., Bethesda, ar *Ddadblygiad*. Dysgwylid i Mr. Adams gyssoni'r pwnc â phynciau mawrion y credoau. Gwneir hyny mewn dull pur wreiddiol. Adolygwyd y llyfr yn ffafriol ddigon yn *Y Genedl*, ac hefyd, fel y deallwn, yn *Y Tyst*. I'r Cymro uniaith mae yma grynodeb gwerthfawr o'r athrawiaeth newydd hon. Gwir fod olion brys ar y gwaith, ac fod yr iaith weithiau dipyn yn drwsgl ac yn afrwydd; ond, ar y cyfan, mae y llyfr yn dda iawn, a gobeithiwn y caiff ddarlleniad manwl a helaeth. Os teimlir fod y bwyd yn gryf, ceir, yn y diwedd, ei fod yn werth pob trafferth a roddir i'w droi yn feithriniaeth i'r meddwl.

Mae *Seren Gomer* am Gorphenaf yn cynnwys llawer o erthyglau dyddorol a gwerthfawr. Traetha Iorwerth Ddu yn dda ar "Y Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân," Jenkin Howell ar "Sefyllfa y Prydeiniaid ar Ddyfodiad y Rhufeiniaid i'r Wlad;" ac y mae Crybwylliou y Golygydd yn ddyddorol, ac yn arddangos yspryd rhyddfrydig, Ceir crybwylliad parchus am ddarlith Mrs. Humphrey Ward, y nofelydd enwog, ar "Undodiaeth a'r Dyfodol." Yn yr erthygl ar "Galatiaid Paul" camsillebir enw awdwr "*Yr Oes Apostolaidd*." Erthygl alluog yw yr un yn adolygu llyfr Adams ar *Ddadblygiad*. Ysgrifenir yn deg, ond annghytunir yn hollol ag addysg y llyfr. Dywedir ei fod yn dwyn arwyddion brys, ac fod sylfeini ac adeiladaeth y traethawd yn gamsyniol a pheryglus, fod ei wyddoniaeth, ei athroniaeth, ei dduwinyddiaeth, a'i eglurhadaeth Feiblaidd, yn wallus, camddarluniadol, a gwrthddywediadol. Am hyn oll, meddaf, dylid darllen llyfr Adams!

Ymddangosodd llyfryn Seisnig swllt yn ddiweddar allan o wasg Fisher Unwin, yn dwyn yr enw, *The Welsh Pulpit*, ac y mae'n achosi cryn gynhwrf yn ngwersyllfaoedd yr enwadau poblogaidd. Ceir

llawer o holi a dyfalu pwy yw'r awdwr. Proffesa'r llyfr ei hun ei fod wedi ei ysgrifenu gan "A Scribe, A Lawyer, and a Pharisee;" ond y mae'n eithaf possibl fod y tri yn arfer teithio yn yr un pâr o esgidiau. Mae am i ni gredu mai Gogleddwr ydyw, tra mae rhai pobl am wneyd maes mai un o "wyr y gweithe" yw. Myn ereill mai Cardi yw tra chyfarwydd yn y Gogledd. Pwyo'n ddidrugaredd ar y llyfr wna'r prif gyfnodolion. Dibrisia'r *Goleuad* ef mewn erthygl dan y pennawd, "Y Lygoden Fach," a dengys yspryd chwerw iawn. Trwsgl y mae'r *Traethodydd*, a'r *Tyst a'r Dydd*, a'r *Gwyliedydd* yn ei drin, er fod yr olaf yn addef ei fod heb ei ddarllen. Ceisia'r *Western Mail* ei ddamnio trwy ddesgrifio ei gynnwys fel "Undodiaeth Digymmysg." O'r tu arall, rhydd y *South Wales Daily News* air uchel iawn iddo. Ag eithrio pennod y Pharisead, mae y llyfr wedi ei ysgrifenu mewn yspryd ffein. Cyffesa fod pwlpud Cymru yn y gorphenol wedi bod yn allu mawr, ond ei fod erbyn heddyw yn hollol *out of date;* fod eisieu diwygio ei dduwinyddiaeth, a'i ddwyn yn nes at symlrwydd addysg Iesu Grist.

Bu'r Iarll Salisbury, Llywydd y "British Association" yn Rhydychen eleni, yn hapus yn ei ddewisiad o bwnc Ymlawenychu wnai llywyddion blaenorol yn y darganfyddiadau mawrion a phwysig wneir o bryd i bryd gan wyddor. Gellir tybied weithiau wrth ddarllen am eu gorchestion fod archoffeiriaid gwyddor yn hollwybodol, ac fod yr holl ddirgelion wedi eu dadlenu. Mae gwir wybodaeth yn wylaidd. Tybiai'r byd fod Syr Isaac Newton yn ddysgedig iawn; ond yr oedd efe ei hun i'r eithaf yn wylaidd. Cyffesai ei fod feallai wedi cael gafael mewn ambell i gragen fach ar y traeth, bertach nâ'i gyfoedion, ond yr oedd môr mawr gwybodaeth o'i flaen ac heb ei chwilio. Dewisodd Salisbury adgofio'r enwogion mor ychydig wyddant mewn cymhariaeth i'r hyn ni wyddant. Cuddir anwybodaeth yn fynych dan gysgod geiriau. Dywed hen ddiareb, "Words are the counters of wise men and the money of fools." Defnyddir geiriau dysgedig, a thybir fod pethau trwy hyny yn cael eu hamlygu. Ni ddichon gair wneuthur dim. Mynwn wybod beth yw ystyr y gair. Beth yw *Gravity*, *Evolution*, *Ether*, *Atom?* Mae tipyn o wyleidd-dra yn werthfawr, a da i ni gofio gydag Oliver:

> Mor 'chydig wyf yn wybod heb wybod hyny'n iawn,
> O'm blaen mae môr diderfyn o wirioneddau'n llawn, &c.

Mae llawer o son y dyddiau presennol am Undeb yr Enwadau, a llawer llwybr yn cael ei gymmeradwyo tuag at gyrhaedd amcan mor ddymunol. Llawer o beth yw cael cynnrychiolaeth o'r gwahanol enwadau at eu gilydd i ymdrin â'r pwnc. Sicrheir felly fwy o adnabyddiaeth, a mwy o gydymdeimlad rhwng yr enwadau, ac y mae hyny yn llawer. Cynllun y Dr. Lunn yw cael y cynnrychiolwyr at eu gilydd

mewn lle dedwydd a chysurus ar y Cyfandir i fwynhau eu gwyliau, ac i bleidio yr egwyddor fawr Gristionogol o gariad brawdol. Ofnwn, fodd bynag, nad llawer o gynnydd wneir, tra'n gofyn am Undeb opiniynau. Rhy anhawdd cael hyny. Mae y Pab yn foddlawn derbyn pawb ond iddynt gydnabod ei oruchafiaeth ef, mai efe yw pen gweledig Eglwys Crist ar y ddaear; Eglwys Loegr yn foddlon eu derbyn ond iddynt adael eu heresi a'u sism, a dychwelyd at yr Hen Fam; a'r Bedyddwyr, ond iddynt gymmeryd eu trochi. Cheir byth undeb yn y cyfeiriad hwnw: yr unig undeb possibl yw undeb yr Ysprydyn nghwlwm tangnefedd. Q.Q.

CYMDEITHAS BEDYDDWYR CYFFREDINOL CYMRU.

Yn y *Monthly Repository* am 1807, t. 333, ceir yr hanes canlynol wedi ei ysgrifenu gan un o'r gweinidogion:

"Mai 19, am 3 ar gloch yn yr hwyr, cyfarfyddasom yn Nghastellnewydd Emlyn. Dechreuodd W. Morris y gwasanaeth trwy roddi emyn allan a chanu. Pregethodd y brawd Moses Williams, Llandyfan, oddiar Ioan iii. 16; a'r brawd Thomas Jenkins, Abertawe, oddiar Esa. lv. 7.

"Mai 20. Cyfarfuasom yn Aberteifi am 10 yn y bore. Y brawd John Simon, Cwmdu, ddechreuodd y gwasanaeth, a phregethodd y brawd Thomas Jenkins, Abertawe, oddiwrth Luc xiii. 34, a W. Morris oddiwrth 2 Thes. ii. 16, y rhan olaf; y brawd Moses Williams oddiwrth Deut. xxxii. 3, a'r brawd James Davies a derfynodd y gwasanaeth. Cyfarfyddasom drachefn oddeutu 3 yn y prydnawn, pan y darllenwyd y llythyron oddiwrth yr eglwysi. . . . Cynnelir y cyfarfod nesaf yn y Wig, y Mercher cyntaf yn Mehefin, y brodyr David Davies ac Evan Evans, Castellnewydd, a James Davies, Rhydargaic, i bregethu. Rhyw ddau i bregethu yn y Notais y nos o'r blaen.

"W.M."

CYFRES Y DARLUNIAU.

Mr. Gol.,—Gan fy mod yn ddarllenwr cysson o'r Ymofynydd oddiar ymddangosiad y rhifyn cyntaf hyd yn bresennol, ac wedi casglu llawer o wybodaeth a buddioldeb ar wyneb ei dudalenau, y mae yn naturiol ac yn foddhaol iawn genyf am bob peth a wneir tuag at ei wneyd yn fwy dyddorol; ac yr wyf yn credu eich bod wedi gweithredu yn ddoeth yn y cyfeiriad hwnw trwy gyhoeddi darluniau gweinidogion, ac ereill o'r nifer deilwng o bobl sydd wedi ymrestru yn y rhengau Undodaidd yn y Dywysogaeth. Credaf, yn mhellach, y byddai cael darluniau yr hen weinidogion ydynt wedi ymadael â'r tuchedd hon yn dderbyniol iawn gan lawer heblaw fy hun. Nodaf, fel enghraifft, y rhai canlynol:—Y Parchedigion John James, Gellionen; John Thomas, Llandyssul; John Jeremy, Caeronen; Rees Davies, Capel-y-Groes; Thomas Emlyn Thomas (Taliesin Craigyfelin); a Thomas J. Griffiths (Tau Gimel), Cribin; John Davies, Peter Joseph, a William

Thomas (Gwilym Marles), Llwynrhydowen; John Jones, Aberdar; Owen Evans ac Isaac Williams, Cefncoed; David Evans, Alltyplaca; Titus Evans, Caerfyrddin; William Davies, Penrhiw; Thomas Evans (Lowtre), Kingswood; John Evans, Gellionen; Walter D. Jeremy, Llundain; ac E. W. Lloyd, Cwmbach. Bum bron annghofio Dr. Lloyd, Caerfyrddin, a John E. Jones, Penybont, golygydd cyntaf yr YMOFYNYDD. Yr wyf wedi clywed oddiar sail gredadwy fod y draul o gyhoeddi yr YMOFYNYDD wedi ychwanegu yn fawr oddiar pan ddechreuwyd cyhoeddi y darluniau, ac fod y rhan fwyaf, os nid yr oll, yn cael ei osod ar ysgwyddau y Golygydd. Tybiaf ei bod yn annhegwch mawr ei adael i ddwyn y draul i gyd; felly, yr wyf yn appelio at yr oll o'r derbynwyr am anfon cais, trwy y dosparthwyr, i godi pris yr YMOFYNYDD i bedair ceiniog. Ni fydd yr aberth ond un swllt yn y flwyddyn i bob un o honom, a chredaf y dylid ei wneyd yn ddioedi. Peidiwch a bod yn fusgrell, ac os gwnewch hyna, credaf y bydd pob un o honom ar ei ennill yn y pen draw. Credaf hefyd y rhydd hyny foddlonrwydd i lawer heblaw eich ufudd was,

D—l—s. GWYLIWR.

TYSTEB I'R PARCH. THOMAS THOMAS, GREEN PARK.

Derbyniwyd y tanysgrifiadau canlynol yn ychwanegol at y dysteb uchod gan ysgrifenydd cynnulleidfa Pantydefaid (Mr. D. J. Evans, Alltrodin Arms, Llandyssul):—Mrs Jenkins, Gwarllwynoidos, £1 0s. 0c.; Mrs. M. Davies, Ffynnon Owen, 3s.; Miss Rachel Thomas, Clettwr Villa, 4s.; Mrs. Sarah Parry, No. 3, Pontshan, 4s.; Mr. James Davies, Cefngwallter, 10s.; Mrs. Jones, Gelligron, 5s.; Miss Evans, Frondoleu, N. Quay, £3 3s.; Miss Anne Evans, Penlan, 5s.; Miss Elizabeth Davies, Fron, 2s. 6ch.; Mr. E. Jones, Pantmoch, £1 0s. 0c.; Miss H. Davies, Penrhiw, Pantgwyn, 5s.; Miss Sarah Davies, Cwmdullest, 2s. 6ch.; Mrs. Mary Jones, Abercefel, 4s.; Mrs. Edwards, Pantstrimon, 10s. 6ch.; Mr. a Mrs. Davies, Ffynnonau, 10s. 6ch.; Mr. Joseph Jones, Gilfachddafydd, 10s. 6ch.

Tanysgrifiadau a dderbyniwyd yn Nghapelygroes:—Mr. John Davies, Cefncoed, 2s. 6ch.; Miss Rachel Davies, Cefncoed, 2s. 6ch.; Mr. Evan Williams, Llanwnen, 10s. 6ch.; Mr. William Davies, Ffynnonfair, 10s. 6ch.; Mr. David Morgans a Mrs. Jenkins, Moelfre, £1 1s.; Mr. David Jones, Castell, Pencarreg, £1 1s.; Mr., Mrs. a Miss Evans, Llysfaen, £2 2s.; Mrs. Jenkins, Mynach Villa, 10s. 6ch.; Mrs. Evans, Felinban, 2s. 6ch.; Mr. William Evans, Felinban, 5s.; Miss Hannah Evans, Felinban, 2s. 6ch.; Mr. Thomas Jones, Ty'nclawdd, 4s.; Mr. Simon Davies, Llwyngroes, 3s.; Miss Eleanor Evans, Pantycelyn, 2s. 6ch.; Mr. a Mrs. Evans, Llysfaen House, £2 2s.; Mrs. Thomas, Caeglas, £1; Mr. D. Jenkins a'i Deulu, Blaenwaun, £1; Mrs. Davies, Glanrhydypysgod, 2s. 6ch.; Mr. a Mrs. Davies, Unity Cottage, 3s.; Mr. Jenkin Davies, Unity Cottage, 2s.; Miss Mary Davies, Unity Cottage, 2s.; Miss Anne Jones, Rhydfach, 1s. 6ch.; Mr. Lewis Williams, Pentrerhys, 5s.

Nid ystyriwn fod y Dysteb wedi ei chau gyda golwg ar Gapelygroes. Efallai y chwennychai rhagor ddangos eu hewyllys da at yr achos.

Bwriedir yn awr orphen casglu at y Dysteb tua hanner mis Medi.

SION LLEWELYN.

Y mae yn bur debyg i'r hen fardd fod mewn tipyn o brofedigaeth o herwydd i'r fuwch oedd ganddo fyned yn hesp yn gynt nag y dylasai, ac y mae yn ymddangos hefyd fod llaeth y fam yn dra phrin i Martha fach ; ac yn y trybini canodd fel hyn—

Fe aeth yr hen fuwch Rosy
Yn hesp heb ddafan genti ;
Beth wnawn ni mwy i Martha fach

. . . . .

Ni gawn flawd cyrch a 'menyn,
A dw'r o ffynnon Focyn,
I faethu'r ferch er gwaetha'r fuwch
I neidio c'uwch ag undyn.

Trueni fod y llinell ddiweddaf o'r pennill cyntaf ar goll. Dichon fod rhywun yn ei gwybod. Mae yn debyg mai y Fartha uchod oedd y gyntaf a gladdwyd wrth yr hen Dy Cwrdd ar Goedcymmer.

Oddeutu yr un adeg dygwyddodd i hen iar iddo drengu, ac yr oedd ei hiraeth ar ei hol gymmaint fel y canodd iddi alarnad, a dyma rai o'r llinellau—

Yr oedd o leia'
Yn ddeg o flwydda',
Yn ffaelu hedfan
Na chloehdorian,
Ac yn ffaelu ledo un o'i 'loda.

Druan o'r hen iar! yr oedd ymollyngdod a disgyniad i'r bedd yn drugaredd o'r mwyaf iddi yn ei henaint a'i llesgedd.

Cefais y llinellau uchod gan Mrs. Catherine Jenkins, Mardy Street, Twynyrodyn, yr hon sydd yn disgyn o lwynau yr hen Sion Llewelyn.

65, *Brecon Road, Merthyr, Awst* 7, 1894. GWERNYFED.

Manion ac Hanesion.

Y PARCH. W. J. DAVIES.—Mae yn mwriad ein cyfaill Mr. Davies i gyhoeddi ei draethawd buddugol ar "Hanes Plwyf Llandyssul," am yr hwn yr ennillodd, yn ddiweddar, wobr o bum' gini. Cynnwysa y traethawd 17 o bennodau, yn ymdrin ag hanes a holl neilldduolion y plwyf. Os oes rhai o'r darllenwyr a garent gael y llyfr ban fydd yn barod, gallant wneyd hyny trwy anfon eu henwau at Mr. Davies. Pris y llyfr fydd 3s. 6c.

Y PARCH. CEREDIG JONES, M.A.—Mae y pregethwr rhagorol a'r Cymro gwladgar awn wedi bod ar ymweliad â Chymru yn ddiweddar. Pregethodd yn Nghwm Rhondda, ac mewn amryw gapelau yn Sir Aberteifi, gyda derbyniad mawr.

Y PHOTOS.—Carwn ddweyd gair am y rhai'n. Credwn eu bod yn dderbyniol, ac yn ychwanegu at ddyddordeb ein misolyn. Ond heb help cyfeillion, mae y draul yn ormod i ni allu eu parhau yn hir. Yn ychwanegol at dreuliau y *blocks*, mae *bill* yr argraffydd wedi myned yn fwy. Ein dymuniad yw eu parhau, os oes modd.

GELLIONEN.—Yn gymmaint ag na fydd y capel newydd ar Graig Trebanos wedi ei gwbl orphen erbyn adeg y cwrdd chwarter

nesaf, bydd yn ofynol i ohirio y cwrdd am ychydig amser. Ceir hanes pellach yn YMOFYNYDD Hydref.

GELLIONEN.—Cynnaliodd yr eglwys hon ei Gwyl De Flynyddol dydd Sadwrn, Gorphenaf 21. Daeth tua saith cant yn nghyd i fwynhau y danteithion melus a barotowyd iddynt. Bu yr holl ferched perthynol i'r eglwys, ac ereill, yn ymdrechgar dros ben gyda'r byrddau i ddiwallu nifer mor fawr. Nid bychan o orchwyl yw sefyll uwchben y bwrdd am tua chwe' awr o amser. Y maent yn wir deilwng o'r parch mwyaf, a phawb fuont yn rhoddi cynnorthwy mewn gwahanol ffyrdd. Cafwyd tywydd ardderchog o'r dechreu i'r diwedd. Hefyd, chwareuodd y Trebanos Brass Band ei ddarnau dewisedig yn hynod feistrolgar, dan arweiniad y cyfaill ieuanc David H. Morgan, a mwynhaodd y gwrandawyr eu hunain yn gampus.

EMRYS.

CILIAU AERON.—Ysgrifena gohehydd o'r lle hwn atom fel hyn:—"Diamheu y gwyddoch fod y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., wedi cymmeryd ein hachos i fyny, a bwriada adeiladu capel hardd yma yn ystod yr Haf nesaf. Yn ychwanegol at hyny, y mae wedi prynu tir at fynwent newydd. Mae'r ty capel wedi ei orphen, a bydd ystabl yn cael ei chodi etto, ac uwchben hono bydd *long room* at gynnal Ysgol Sul a chyfarfodydd llenyddol. Felly, chwi welwch fod gan eglwys fechan Ciliau ei charedigion, ac nis gellir mynegu mewn geiriau am y parch a'r diolchgarwch a fynwesir genym tuag at y cyfaill sydd wedi cymmeryd ein hachos mewn llaw. Ein hyder yw y gwnaiff ereill eu rhan pan y gwneir appêl atynt.

DOWLAIS.— Gorphenaf 26, cynnaliodd athrawon ac ysgolheigion y lle hwn eu *pic-nic* blynyddol yn Nolygaer y flwyddyn hon, fel arfer. Cychwynwyd oddiyma gyda'r trên deuddeg yn gryno gyda'n gilydd. Wedi cyrhaedd Pentwyn, cafwyd yr ystafell wedi ei haddurno yn brydferth dros ben, ac yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mrs. Jenkins am barotoi pob peth ar ein cyfer. Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan y boneddigesau canlynol:—Miss J. Lewis, Bryntirion street, a Miss S. A. Evans, Church street, Pendarren. Yn tori'r *ham* a phethau melus ereill, yr oedd Mrs. Jenkins, Bryntirion street, a Miss Davies, Pendarren. Cyrhaeddwyd Dowlais erbyn saith yn yr hwyr, a phawb, 'rwy'n meddwl, wedi mwynhau y wledd yn ardderchog, a gobeithio y cawn ei thebyg etto yn fuan yw dymuniad pawb.

Awn i'r Ysgol Sul i loffa
Oddiar feusydd llawn ein Duw,
Lle mae'r tywysenau bywiol
Yn rhydd i bawb o ddynol ryw;
Gwr y ty yn taflu'r tywys
Yn ddyrneidiau o fy mla'n,
Minau'n casglu'n 'rol y fedel,
Ac yn uno yn y gân.

Dowlais. S. JONES.

Marwgofion.

Gorphenaf 29, yn ddisymwth iawn, William Thomas, Unity Street, Aberdar, yn 62 oed. Un o lwyth yr hen Richard Siencyn, y rhai ydynt wedi bod yn bleidwyr gwresog i'r ffydd Undodaidd, oedd ein hanwyl gyfaill diniwed—cyfaill ein hieuenctid. Claddwyd yn y *Cemetery* ar yr Iau canlynol, R.J.J. yn gwasanaethu. Gadawodd weddw a theulu lluosog mewn hiraeth mawr.

Awst 1, yn nhy ei mab, yn Ffynnonlas, ger Cribin, Mary Jones, ar ol cystudd byr. Yr oedd yr ymadawedig yn un o aelodau hynaf yr Eglwys Undodaidd yn y Cribin, a thra yr oedd yn alluog, bu yn ffyddlon iawn yno; ond yr oedd wedi methu bellach er's cryn amser. Mae ei dau fab, Evan Jones, Felin Llysfaen, a John Jones, Ffynnonlas, yn nghyd â'u teuluoedd, yn aelodau ffyddlon a gweithgar yn yr un eglwys. Hebryngwyd ei gweddillion i Fynwent Capelygroes y Sadwrn canlynol gan dyrfa anarferol o luosog, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, Cribin, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. E. Jenkins, Capelygroes.

Awst 10, Thomas Howells, 25, Llantrisant Road, Pontypridd, yn 77n oed. Brodor o Aberdar oedd, a brawd i Mr. William Howells, Dare Villas. Gwasanaethwyd yn y *Cemetery*, Aberdar, gan R.J.J.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.



J. R. Thomas, Psw., Niles, O., U.D.A.